Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

CCUHP

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Dwedwch hi fel y mae

Canllaw ar y Cyfryngau

"Mae'r cyfryngau wastad yn dangos y storïau am bobl ifanc yn gwneud pethau drwg. Ddim yn aml fyddwch chi'n gweld sôn yn y newyddion am y pethau da."
(person ifanc, Eisteddfod yr Urdd)

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Dwedwch hi fel y mae

Cynnwys

Rhagymadrodd – 'Hawliau dan Sylw' 3

- Pam cynhyrchu pecyn cymorth ar y cyfryngau?
- Beth mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei ddweud am hawliau plant a phobl ifanc i gael sylw cytbwys yn y cyfryngau.

Yn gyntaf i gyd – Dechreuwch gyda'r Stori 6

- Awgrymiadau a chynghorion ar ddatblygu a drafftio stori/erthygl neu gyfweliad.

Datrys Drysfa'r Cyfryngau 8

- Beth yw ystyr 'y cyfryngau' a phwy neu beth yw'r 'cyfryngau' traddodiadol?
- Iaith y cyfryngau, o hysbysebu i gysylltiadau cyhoeddus.

Canllaw Cam-wrth-Gam ar Fagu Cysylltiadau â'r Cyfryngau 10

- Cam 1 – gwneud cysylltiad
- Cam 2 – pwy sy'n rhoi sylw i beth?
- Cam 3 – cyflwyno'n hunain
- Cam 4 – gwneud y cysylltiad cyntaf
- Cam 5 – meddwl yn greadigol
- Cam 6 – tynnu sylw
- Cam 7 – monitro unrhyw sylw yn y cyfryngau

Tynnu Sylw'r Llygad 19

- Sesiwn tynnu llun
- Tynnu'ch lluniau'ch hun

Lleisio Barn – Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol 21

- Beth yw ystyr y term Cyfryngau Cymdeithasol a pham eu defnyddio nhw?
- Y Cyfryngau Cymdeithasol ac e-ddiogelwch
- Cynllunio strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol
- Portread – Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd
- Dewisiadau yn y cyfryngau cymdeithasol
  - Ffeithiau Facebook
  - Helo Bebo
  - Defnyddio YouTube
  - Trydar ar Twitter
  - Flickr
  - Hanfodion Blogio
  - Podledu
- Cymysgu'r Cyfrwng

Rhagymadrodd – Hawliau dan Sylw

Ydy'r plant neu'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn barod i rannu eu cyraeddiadau gyda phobl yn eu cymuned, gan sicrhau llais cydradd i'w barn nhw am y materion sydd o bwys iddyn nhw?

Mae'r Canllaw hwn ar y Cyfryngau yn cynnig cyngor ymarferol i'ch helpu chi i helpu'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw i roi darlun llawnach, tecach o'u newyddion, eu safbwyntiau, eu gweithgareddau, a'u materion a hynny ar draws y cyfryngau.

Drwy eu hannog i godi pen, llyfr nodiadau, recordydd sain neu gamera fideo, a gohebu ynglŷn â phethau cadarnhaol sy'n digwydd yn eu bywydau nhw gartref, yn yr ysgol ac yn eu cymuned, bydd y canllaw yn helpu i wneud y canlynol:

- taro cydbwysedd yn yr adroddiadau ar sut mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn eu cymunedau
- rhoi hawl i ymateb iddyn nhw
- datblygu eu sgiliau mewn llythrennedd, cyfathrebu, gweithio mewn tîm, ymchwilio a gohebu
- rhoi tystiolaeth iddyn nhw a allai gael ei defnyddio at eu cymwysterau achrededig fel Bagloriaeth Cymru.

Mewn geiriau eraill…

Eich helpu chi i'w helpu nhw – i'w 'dweud hi fel y mae'

Beth sydd gan yr CCUHP i'w ddweud

Mae CCUHP yn sefyll am Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dyma restr o hawliau sydd wedi cael eu cytuno fel safon ryngwladol i'r holl blant a phobl ifanc, ym mhobman yn y byd, pwy bynnag ydyn nhw, ble bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag maen nhw'n ei gredu. Yng Nghymru, dyma'r sail ar gyfer yr holl bolisïau ynghylch Plant a Phobl Ifanc o 0 i 25 oed.

Mae pob llywodraeth yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn gwybod am yr CCUHP ac yn ei ddeall.

Un o'r ffyrdd i helpu plant a phobl ifanc yw datblygu pecynnau cymorth fel hwn, i'w helpu i fynnu eu Hawliau a'i *Dweud hi fel y mae*.

Mae cyfanswm o 54 o erthyglau yn yr CCUHP:

Mae pob un o'r 41 Erthygl gyntaf yn amlinellu Hawl neu rwymedigaeth sy'n nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Gallwch lawrlwytho poster ar Erthyglau'r CCUHP, sy'n darlunio'r erthyglau i gyd oddi ar www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae'r 13 erthygl olaf yn ymwneud â sut mae llywodraethu'n rhoi'r confensiwn ar waith ac yn ei fonitro.

Mae'r erthyglau hyn yn yr CCUHP yn cyfeirio'n arbennig at hawliau ynglŷn â gwybodaeth.

Mae Erthygl 2 yn dweud bod y confensiwn yn gymwys i bawb, gan ddatgan
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Mae Erthygl 3 yn ymwneud â gwneud yr hyn sydd orau i blant
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a phobl ifanc weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Mae Erthygl 6 yn datgan bod gan blant hawl i fyw
Dylai llywodraethau ofalu fod plant a phobl ifanc yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Mae Erthygl 12 yn ymwneud â safbwyntiau'r plentyn, gan ddweud
Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gymryd rhan ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a dylai'r safbwyntiau hynny gael pwysau priodol "yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn".

Mae Erthygl 13 yn rhoi gwybodaeth inni am gael gwybodaeth a'i rhannu
Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

Mae Erthygl 16 yn diogelu preifatrwydd ac enw da yr unigolyn
Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i breifatrwydd, a'u diogelu rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da nhw a'u teuluoedd a'u cartrefi.

Mae Erthygl 17 yn dweud wrthon ni am yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy a chywir
Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gallwch ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a all beri niwed.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael eu gwrando, a chael eu cymryd o ddifrif.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk lle gwelwch chi Becyn Cymorth Codi Ymwybyddiaeth o'r CCUHP sydd wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu oedolion a gweithwyr proffesiynol wrth addysgu plant a phobl ifanc am eu hawliau.

Yn Gyntaf i Gyd – Dechreuwch gyda'r Stori

Wrth weithio gyda phlant neu bobl ifanc i ymchwilio ac wedyn ysgrifennu stori neu erthygl am eu newyddion, eu safbwyntiau, eu gweithgareddau neu eu cyraeddiadau, i'w chyhoeddi mewn print, i'w chlywed ar y radio, i'w gweld ar y teledu neu ar-lein, yr un yw'r hanfodion:

1. Beth yw'r stori – Rhywbeth y mae'r darllenydd yn awyddus i'w ddarllen yw stori neu erthygl dda. Mae angen dechrau, canol a diwedd!

2. Adnabod eich cynulleidfa – Cofiwch ddeall pwy sy'n debyg o ddarllen eich stori neu'ch erthygl.

3. Cynllunio – Rhaid cael syniad clir bob amser o'r hyn yr hoffech i'r darllenydd ei wybod, gan wneud y stori mor gywir â phosibl.

4. Gogwydd personol – mae ychwanegu cyfweliad yn ffordd wych i gynnal momentwm stori neu erthygl. Ond mae'r paratoi yn hollbwysig.

- penderfynwch ar y cwestiynau i'w gofyn
- gofynnwch gwestiynau clir a chryno
- byddwch yn gyfeillgar, ac ystyriwch sut mae'r person sy'n cael ei holi'n teimlo: gall fod yn nerfus
- gosodwch y dôn: dechreuwch â chwestiwn bach hawdd
- adeiladwch tuag at y cwestiynau pwysig
- cofiwch grynhoi ar y diwedd.

5. Creu'r Copi

- Defnyddiwch y geiriau bach – Pwy, Beth, Ble, Pryd, Pam a Sut
- Rhaid ennyn sylw'r darllenwyr neu'r gwrandawyr yn yr ychydig frawddegau cyntaf
- Gwnewch i'r darllenydd, y gwrandäwr neu'r gwyliwr feddwl eu bod nhw yno, yn cymryd rhan yn y gweithgaredd neu'r digwyddiad
- Gofynnwch i rywun ddarllen y stori a rhoi adborth
- Ewch yn ôl a'i golygu.

6. Cyfri'r geiriau – ewch am unrhyw beth rhwng 300 o eiriau mewn stori fer neu gyhoeddiad i bapur newydd, hyd at ryw 1500 o eiriau mewn erthygl i gylchgrawn neu adolygiad ffilm.

Mae'n arbennig o bwysig annog unrhyw un sy'n ysgrifennu ar gyfer y we, boed dudalen gwe neu ddiweddariad Facebook, i fod yn gryno o ran eu geiriau gan gadw'r stori'n fyr ac yn berthnasol. Cofiwch, 140 o gymeriadau, gan gynnwys unrhyw atalnodau, yw'r uchafswm ar gyfer neges Twitter.

Anogwch y plant a'r bobl ifanc i ddefnyddio:

- geiriau gwneud mewn brawddegau byr o 8-15 o eiriau
- is-benawdau
- un syniad i bob paragraff neu'n well byth rhestr o bwyntiau bwled, ond dim mwy na saith!
- cysylltiadau gwe fel rhan o'r stori.

I grynhoi, cofiwch am y rhain…

- rhywbeth newydd, gwahanol neu od
- pwyslais ar yr hyn sy'n anarferol yn y stori, i dynnu sylw ati
- apêl drwy enwogion os oes modd neu os yw'n briodol
- sicrhau bod y stori'n gyfoes: rhaid iddi fod yn digwydd cyn hir neu newydd ddigwydd.

Cofiwch: rhaid prawfddarllen y stori bob tro, bob amser.

Yn y Ffolder Adnoddau fe welwch chi:

Adnodd 1: portread enghreifftiol 'Dyfal donc a dyr y garreg.'

Adnodd 2: enghraifft o stori wedi'i hysgrifennu fel hysbysiad newyddion – 'Cynllun clybiau ieuenctid i bentrefi yn ennill gwobr genedlaethol.'

Datrys Drysfa'r Cyfryngau

Beth yw ystyr y cyfryngau?

Rydyn ni'n tueddu i feddwl am 'Y Cyfryngau' fel papurau newydd, cylchgronau, y radio a'r teledu ond mae nifer fawr o fathau o gyfryngau newydd sy'n cael eu defnyddio bob dydd gan lawer o blant a phobl ifanc ac y gallen nhw eu defnyddio i'w 'dweud hi fel y mae'; er enghraifft drwy ddefnyddio Facebook neu Twitter i lwytho blog neu bodlediad i fyny ynglŷn â digwyddiad, mater neu weithgarwch y maen nhw wedi cymryd rhan ynddo.

Pa ddull bynnag sy'n cael ei ddefnyddio, mae'n bwysig gwneud y canlynol:

- dewis y math o gyfryngau sy'n debycaf o roi sylw i'w stori benodol nhw.
- rheoli eu disgwyliadau ynglŷn â'r hyn a allai gael ei godi a'i ddefnyddio neu beidio.
- cadw at y protocolau ar ddiogelwch.

Bydd unrhyw stori sy'n cael ei datblygu gan blant a phobl ifanc i'w chyhoeddi yn gorfod cystadlu â llawer o rai eraill i gael lle. Ar yr ochr gadarnhaol, gan fod rhaid i'r cyfryngau lenwi'r tonfeddi 24 awr y dydd ac yn sgil y cynnydd yn nifer y ffynonellau yn y cyfryngau cymdeithasol ar y we, dyma'r amser gorau erioed i roi cynnig arni.

Deall Iaith y Cyfryngau

Bydd deall iaith y cyfryngau a'r gwahanol ffyrdd o'i 'dweud hi fel y mae' yn helpu i sicrhau'r sylw haeddiannol i stori. Dyma'r geiriau allweddol:

- Hysbysebu
- Hyrwyddo neu hybu
- Cyhoeddusrwydd
- Cysylltiadau Cyhoeddus

Ond beth yw ystyr pob un a beth yw'r ffordd orau i'w defnyddio?

Er mwyn esbonio'r gwahaniaethau, gadewch inni ddefnyddio esiampl grŵp ieuenctid sydd am godi arian at elusen drwy olchi ceir.

Hysbysebu

Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â hysbysebu. Gallai enghraifft ar gyfer y gweithgaredd hwn ddweud:

Grŵp Ieuenctid Cwmhyfryd yn Golchi Ceir at Elusen

ym

Maes Parcio Tŵr y Cloc, Cwmhyfryd

ddydd Sadwrn 12 Mai 2010, 10.00 am – 4.00pm

I godi arian i helpu i adnewyddu
Canolfan Gymunedol Cwmhyfryd.

Golchi'r Car – £2.50 Valet i'r Car – £2.50

Hyrwyddo

Gallai hyrwyddo'r digwyddiad olygu codi posteri neu rannu taflenni yn y gymuned leol am y digwyddiad golchi ceir yn ystod yr wythnos cyn iddo gael ei gynnal.

Cyhoeddusrwydd

Gallai stori newyddion da gael ei chreu pe bai'r grŵp yn gallu perswadio rhywun adnabyddus yn lleol a oedd yn defnyddio'r ganolfan gymunedol pan oedden nhw 'ar eu ffordd i fyny' i ddod â'u car crand i gael ei olchi. Byddai hynny'n gyfle gwych am ffotograffau hefyd.

Cysylltiadau Cyhoeddus

Gallai hyn gael ei droi yn gyfle gwych o ran cysylltiadau cyhoeddus pe bai'r person adnabyddus a fyddai'n dod â'r car i gael ei olchi yn cytuno i fod yn noddwr i'r achos.

Canllaw Cam-wrth-Gam i Fagu Cysylltiadau â'r Cyfryngau

Mae'n bwysig helpu plant a phobl ifanc i ddod i adnabod eu cyfryngau lleol a chenedlaethol os ydyn nhw am weld eu storïau mewn print, eu clywed ar yr awyr neu eu gweld yn y Cyfryngau Cymdeithasol.

Bydd y canllaw cam-wrth-gam hwn yn helpu yn y broses hon. Mae pob cam yn cynnwys awgrym ar gyfer gweithgaredd sy'n cael ei ategu gan un neu fwy o'r adnoddau sydd i'w cael yn y Ffolder Adnoddau.

Hefyd, i'ch helpu i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, mae cyfres o weithdai gyda gweithgareddau, a all gael eu defnyddio neu eu haddasu i helpu i feithrin eu sgiliau mewn cysylltiadau â'r cyfryngau, ar gael yn y Ffolder Gweithdai.

Cam 1 – Gwneud Cysylltiad

Yn aml, 'pwy rydych chi'n nabod' ym myd y cyfryngau a fydd yn helpu i sicrhau bod stori'n cael ei chyhoeddi neu ei darlledu. Syniad da yw adeiladu rhestr o gysylltiadau yn y cyfryngau lleol, cenedlaethol (Cymru) neu yng nghyfryngau'r Deyrnas Unedig. Bydd hyn hefyd yn helpu'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw i ddefnyddio'u sgiliau mewn cyfathrebu, ymchwilio a chofnodi.

Gweithgaredd 1 – I ffwrdd â ni

1. Dechreuwch drwy eu cael nhw i feddwl am yr holl gyfryngau cymunedol lleol a'u cofnodi nhw, er enghraifft y papurau newydd lleol, papurau bro, cylchlythyrau a gorsafoedd radio neu hyd yn oed sianeli teledu.

2. Yna anogwch nhw i feddwl yn ehangach – beth am y cyfryngau hynny sy'n ymdrin â Chymru gyfan a'r Deyrnas Unedig? Gallai ymweliad â'r siop bapurau leol helpu yn hyn o beth.

3. Yn nesaf, mae angen iddyn nhw ddod o hyd i fanylion cysylltu pob un o'r cyfryngau y gallen nhw gysylltu â nhw. Un ffordd dda i wneud hynny yw 'gwglo' enw pob un neu edrych ar Wales Online www.walesonline.co.uk

4. Yn olaf, gwnewch gofnod, mewn tabl neu daenlen, o fanylion cysylltu pob un o'r cyfryngau a'u rhannu yn ôl cysylltiadau lleol, Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae rhestr o gysylltiadau yn y cyfryngau wedi'i chreu gydag ambell gofnod ynddi – mae i'w chael yn y Ffolder Adnoddau. Adnodd 3 – Rhestr o Gysylltiadau yn y Cyfryngau

5. Anogwch y grŵp neu'r unigolion rydych chi'n gweithio gyda nhw i wneud galwad ffôn i un o'r cysylltiadau neu anfon neges e-bost i holi am y dyddiadau a'r amserau cau ar gyfer unrhyw storïau gan eu bod i gyd yn wahanol. Ychwanegwch yr wybodaeth at y rhestr o gysylltiadau'r cyfryngau.

Cam 2 – Pwy sy'n rhoi sylw i beth?

I gynyddu'r gobaith o weld stori mewn print neu ei chlywed ar yr awyr, bydd angen i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw ddod yn gyfarwydd â'r math o storïau y mae pob un o'r cyfryngau ar eu rhestr yn ymdrin â nhw.

Bydd hyn yn rhoi syniad iddyn nhw hefyd o'r math o bobl sy'n darllen y papur newydd, yn gwrando ar y rhaglen radio neu'n gwylio'r rhaglen. Mwyaf yn y byd y gallan nhw gyplysu'r stori â'r cyfrwng cywir, mwyaf yn y byd fydd y gobaith o gael sylw iddi.

Mae Gweithgaredd 2 yn annog y grŵp neu'r unigolion i bori drwy amrediad o bapurau newydd, cylchgronau a chylchlythyrau, i wrando ar orsaf radio neu i wylio sianel deledu er mwyn dechrau deall y gwahanol fathau o storïau sy'n cael sylw gan bob un.

Gweithgaredd 2 – Edrych, Gwylio a Gwrando

Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i ddod o hyd i'r cyfrwng gorau i bob stori ac yn helpu i feithrin sgiliau ymchwilio a dadansoddi.

Gan ddefnyddio'r Rhestr o Gysylltiadau yn y Cyfryngau o Weithgaredd 1, gwnewch restr o'r cyfryngau y dylid gwneud rhagor o ymchwil arnyn nhw. Cyn y Gweithgaredd, casglwch samplau o bapurau newydd, cylchlythyrau a chylchgronau.

Ar siart troi, neu drwy ddefnyddio slipiau gludiog, gofynnwch i'r grŵp nodi:

- y mathau o bobl sydd yn eu barn nhw yn darllen pob un o'r samplau; er enghraifft, dynion yn bennaf neu fenywod yn bennaf a pha mor hen ydyn nhw'n debyg o fod.
- y mathau o stori sy'n cael sylw ynddyn nhw.
- yn olaf ystyriwch pa gyfryngau a allai roi sylw i stori neu weithgaredd sydd ganddyn nhw ar y gweill ar hyn o bryd. Fel arall, defnyddiwch yr enghraifft ar dudalen 12 neu hyd yn oed yr erthygl yn y ddolen gyswllt ganlynol:
  http://www.swoosh.me.uk/en/news/new-communitton-together/03181.html

Grŵp Ieuenctid Cwmhyfryd yn Golchi Ceir at Elusen

ym

Maes Parcio Tŵr y Cloc, Cwmhyfryd

ddydd Sadwrn 12 Mai 2010, 10.00 am – 4.00pm

I godi arian i helpu i adnewyddu
Canolfan Gymunedol Cwmhyfryd.

Golchi'r Car – £2.50 Valet i'r Car – £2.50

Nawr bydd ganddyn nhw syniad o ran pa gyfryngau i'w targedu gyda stori benodol.

Estyniad ar Weithgaredd 2

Bydd yn ddefnyddiol hefyd os gwnaiff y plant a'r bobl ifanc gymryd amser i wrando ar raglenni teledu a radio lleol a chenedlaethol i gael syniad o'r math o storïau sy'n cael sylw ganddyn nhw.

Cam 3 – Cyflwyno'n Hunain

Mae'r cyfryngau'n gwerthfawrogi gwybodaeth gefndir am y grŵp neu'r unigolion sy'n cysylltu â nhw, gan fod hynny'n helpu i roi cyd-destun y stori.

Anogwch y plant neu'r bobl ifanc i baratoi taflen wybodaeth (sydd yn aml yn cael ei alw'n Nodiadau i Olygyddion) a all gael ei defnyddio pryd bynnag y bydd ei hangen.

Gweithgaredd 3a – Paratoi 'Nodiadau i Olygyddion'

1. Mae angen i'r Nodiadau i Olygyddion fod yn ddarn byr, cryno a chywir.

2. Meddyliwch am…
   - pwy ydych chi?
   - beth rydych chi'n ceisio'i gyflawni?
   - sut rydych chi'n mynd ati?

3. O dan bob un o'r penawdau, nodwch y negeseuon allweddol.

4. Cofiwch gynnwys manylion cysylltu bob tro ar gyfer un neu ddau o bobl sy'n rhan o'r grŵp.

Mae Adnodd 4 yn enghraifft o 'Nodiadau i Olygyddion' a allai gael eu haddasu.

Fel arall, fe allen nhw baratoi portread, cipolwg neu broffil am rywbeth y maen nhw wedi cymryd rhan ynddo. Mae portreadau sy'n barod i'w defnyddio yn ôl yr angen yn gallu rhoi bywyd mewn stori gan wneud y gwahaniaeth weithiau rhwng cael sylw i stori a pheidio.

Wrth baratoi portread

- Ystyriwch beth sy'n gwneud y gweithgaredd yma'n wirioneddol ddifyr a pherthnasol.
- Drafftiwch amlinelliad o'r portread – gan ddefnyddio'r templedi yn Adnodd 5 neu 6 o bosibl.
- Golygwch y portread i'w wneud mor fyr a bachog â phosibl.
- Anfonwch y drafft at y person neu'r grŵp sy'n arwain y gweithgaredd iddyn nhw sicrhau bod y ffeithiau'n gywir.
- Os oes modd, ychwanegech ffotograff neu ddelwedd i ategu'r portread (darllenwch yr adran ynghylch Tynnu Sylw'r Llygad).).

Gweithgaredd 3b – Paratoi portread

Defnyddiwch y Map Meddwl (Adnodd 5) a/neu'r Templed (Adnodd 6) i helpu i adeiladu enghraifft o bortread. Naill ai gwnewch gysylltiad â rhywbeth y mae'r grŵp neu'r unigolyn yn gweithio arno ar hyn o bryd neu ewch ati i ymarfer drwy ddefnyddio'r cyfweliad yn Adnodd 7 a all gael ei ddrafftio ar ffurf portread.

Cam 4 – Gwneud y cysylltiad cyntaf

Nawr mae'n bryd annog y plant neu'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw i wneud y cysylltiad cyntaf â'r cyfryngau.

Gan ddefnyddio'r Rhestr o Gysylltiadau a gafodd ei pharatoi yn ystod CAM 1 a'r ymchwil ddilynol yn ystod CAM 2 penderfynwch pa un o'r cyfryngau fydd orau i roi sylw i'r stori sydd wedi'i dewis – un sy'n denu'r math o bobl yr hoffen nhw iddyn nhw glywed y stori.

Os nad oes gan y grŵp neu'r unigolyn stori dan sylw, defnyddiwch yr enghraifft 'golchi ceir' yng Ngweithgaredd 2 fel senario i ymarfer. Mae'n bosibl hefyd y gallai'r grŵp ddefnyddio neu addasu'r Nodiadau i Olygyddion sydd wedi'u paratoi yn ystod CAM 3.

Mae'n werth creu sgript ymlaen llaw cyn ichi gysylltu ag unrhyw un, gan amlinellu'r math o bethau sy'n cael eu cynllunio a gofyn i'r cysylltiad yn y cyfryngau ai dyma'r math o beth y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn rhedeg stori amdano. Ar ôl gwneud hynny, mae'r grŵp neu'r unigolion yn barod i wneud eu cysylltiad cyntaf dros y ffôn neu drwy'r e-bost i gyflwyno'r stori, y gweithgaredd neu'r digwyddiad dan sylw.

Gweithgaredd 4 – Ymarfer eich stori

Penderfynwch ar y gweithgaredd neu'r digwyddiad sydd i gael cyhoeddusrwydd, sef un y mae'r grŵp wrthi yn ei gynllunio, neu'r enghraifft a gafodd ei defnyddio yng Ngweithgaredd 2 i ymarfer.

1. Bwriwch olwg dros y 'Nodiadau i Olygyddion' sydd eisoes wedi'u drafftio i weld a oes angen eu diweddaru neu eu gosod yng nghyd-destun y gweithgaredd neu'r digwyddiad yma.
2. Gydag un yn actio fel galwr ac un arall yn actio fel y gohebydd, dylai pawb gymryd tro i wneud yr alwad ffôn agoriadol, gan amlinellu unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad. Cadwch y neges yn fyr ac yn berthnasol, a chofiwch adael eich manylion cysylltu bob amser.
3. Gall aelodau eraill y grŵp wrando a rhoi adborth. Bydd hynny'n helpu i benderfynu pwy fydd yn lladmerydd da.
4. Unwaith eto gan ddefnyddio'r 'Nodiadau i Olygyddion' gofynnwch i'r grŵp weithio fesul pâr i ddrafftio neges e-bost at un o'r cyfryngau. Anfonwch hi at y rhai eraill yn y grŵp, er mwyn iddyn nhw weld sut mae'r neges yn darllen. Gall y neges gael ei diwygio cyn cael ei hanfon mewn gwirionedd at gysylltiad yn y cyfryngau.

Cam 5 – Meddwl yn Greadigol

Mae swyddfeydd yn y cyfryngau a gohebwyr yn cael cant a mil o hysbysiadau newyddion a galwadau ffôn gan bobl sydd am iddyn nhw roi sylw i'w stori nhw.

Gweithiwch gyda'ch grŵp chi i feddwl yn fwy creadigol am sut maen nhw am adael i bobl yn eu cymuned a'r tu hwnt wybod beth sy'n mynd ymlaen.

Gweithgaredd 5 – Bod yn greadigol

Gofynnwch iddyn nhw feddwl a thrafod ffyrdd deniadol a rhyngweithiol i sicrhau sylw ac ennyn diddordeb pobl yn eu newyddion, eu safbwyntiau, eu gweithgareddau, eu cyraeddiadau a'u materion.

Ystyriwch y dewisiadau canlynol lle gall y grŵp neu'r unigolion baratoi:

- cyflwyniad PowerPoint
- ffilm fer
- arddangosfa greadigol
- perfformiad drama am eu stori; neu
- arddangosfa gan wahodd cynifer o bobl â phosibl i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Drwy feddwl yn greadigol, gallai newyddiadurwr a ffotograffydd gael eu denu i roi sylw i'r stori.

Cam 6 – Tynnu Sylw

Holl bwrpas ysgrifennu ac anfon hysbysiad newyddion yw tynnu sylw at eich newyddion, eich safbwyntiau neu'ch gweithgareddau. Mae gohebwyr yn cael llawer o hysbysiadau newyddion bob dydd felly gwnewch yn siŵr bod yna rywbeth arbennig ynglŷn â'ch stori chi.

Mae yna reolau sylfaenol i'w dilyn wrth ddrafftio hysbysiad newyddion. Bydd defnyddio'r Triongl Newyddion yn helpu i sicrhau bod y ffeithiau pwysicaf ar y dechrau, gan weithio 'i lawr' wedyn.

Fformat Hysbysiad Newyddion

Pennawd (yn tanlinellu prif bwynt y newyddion)
I'w ryddhau ar unwaith neu dan embargo a pheidio â'i ryddhau tan…

Cyflwyniad/Arweiniad
Dechreuwch â bang. Atebwch gynifer â phosibl o'r geiriau bach yn eich brawddeg gyntaf.

Ffynhonnell
Os nad ydych chi wedi gwneud yn barod, atebwch y cwestiwn: "Sut rydw i'n gwybod?" Mae hyn yn rhoi hygrededd.

Hanfodion
Mae hyn yn cynnwys pam mae'r stori'n arwyddocaol – y persbectif. Yma rydych chi'n ateb y cwestiynau "Pa ots?" a "Sut?"

Dyfyniadau
Rhowch fywyd yn yr hysbysiad drwy ychwanegu dyfyniadau.

Unrhyw beth arall?
Oes unrhyw beth yn eisiau?

Diwedd
Teipiwch "diwedd" ar y diwedd.

Nodiadau i'r Golygydd
Eich cyfle olaf i ddweud wrth newyddiadurwyr ble i gael copïau o adroddiad, ffotograff neu wybodaeth arall.

Cysylltwr
Enw, rhif ffôn ac e-bost pobl sy'n gallu rhoi rhagor o wybodaeth.

Mae triongl yr hysbysiad newyddion wedi'i addasu o'r fersiwn ar y prosiect 'Make Literature Online'. http://www.makeliterature.com/blog/press-release

I Grynhoi

1. O dan y teitl HYSBYSIAD NEWYDDION defnyddiwch bennawd sy'n dal y llygad.

2. Atebwch y geiriau bach yn y paragraff cyntaf mewn 30 gair neu lai:

   - Pwy sydd wrthi?
   - Beth maen nhw'n ei wneud?
   - Ble mae'n digwydd?
   - Pryd mae'n digwydd?
   - Pam mae'n digwydd?

3. Defnyddiwch yr ail baragraff i ymhelaethu ar y manylion.

4. Defnyddiwch y trydydd paragraff i roi manylion ychwanegol.

5. Cynhwyswch ddyfyniad gan rywun sy'n rhan o'r gweithgaredd.

6. Cofiwch roi enw a manylion cysylltu rhywun – y rhif ffôn a'r cyfeiriad e-bost.

7. Gorffennwch â'r geiriau– 'DIWEDD YR HYSBYSIAD NEWYDDION'.

Mae sampl o hysbysiad newyddion yn Adnodd 8.

Defnyddiwch y 'Nodiadau i Olygyddion' os oes angen rhagor o fanylion, er enghraifft ffotograff. (Gweler Adnodd 4 yn y Ffolder Adnoddau). Ar ôl ei ysgrifennu, mae hysbysiad newyddion yn cael ei anfon at ohebydd neu olygydd papur newydd, cylchgrawn, gorsaf radio neu deledu fel ffordd o ennyn eu diddordeb mewn stori.

Os nad ydych chi'n bwriadu i'r hysbysiad newyddion gael ei gyhoeddi ar unwaith gallwch roi EMBARGO arno gan nodi pa bryd y gall gael ei ryddhau yn gyhoeddus – gweler Adnodd 10 i gael enghraifft o hysbysiad newyddion ac arno embargo.

Holwch eich cysylltiad yn y cyfryngau sut maen nhw'n hoffi cael hysbysiadau newyddion – drwy'r post eu drwy'r e-bost. Os yw'n well ganddyn nhw e-bost, holwch a ydyn nhw am gael yr hysbysiad newyddion ar ffurf atodiad ynteu wedi'i gludo i mewn i brif ran y neges e-bost. Rhowch y pennawd ym mlwch pwnc y neges e-bost er mwyn i'r gohebydd weld ar unwaith beth sydd dan sylw yn y stori.

Holwch bob amser i sicrhau bod y neges e-bost wedi dod i law a gofyn a oes arnyn nhw angen rhagor o wybodaeth. Croeswch eich bysedd y bydd y gohebydd yn cysylltu â chi eto wedyn os oes ganddyn nhw ddiddordeb yn y stori.

Gweithgaredd 6 – Ysgrifennu Hysbysiad Newyddion

Gofynnwch i'r grŵp edrych ar y cynghorion ar ysgrifennu hysbysiad newyddion – Adnodd 9 yn y Ffolder Adnoddau.

Gan ddefnyddio Adnodd 10 – Templed Hysbysiad Newyddion – anogwch nhw i roi cynnig ar ddrafftio hysbysiad newyddion ynghylch un o'u gweithgareddau, eu digwyddiadau neu eu cyraeddiadau nhw.

Efallai y byddan nhw am ddechrau drwy ddefnyddio gweithgaredd golchi ceir Cwmhyfryd isod neu rhowch gynnig ar y gweithgaredd yn y ddolen gyswllt yma: http://www.swoosh.me.uk/en/news/new-communitton-together/03181.html

Grŵp Ieuenctid Cwmhyfryd yn Golchi Ceir at Elusen

ym

Maes Parcio Tŵr y Cloc, Cwmhyfryd

ddydd Sadwrn 12 Mai 2010, 10.00 am – 4.00pm

I godi arian i helpu i adnewyddu
Canolfan Gymunedol Cwmhyfryd.

Golchi'r Car – £2.50 Valet i'r Car – £2.50

Mae hysbysiad newyddion ar ffurf Nodyn Dyddiadur yn aml yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod ymlaen llaw am ddigwyddiadau neu fel gwahoddiad i aelodau'r cyfryngau ddod i ddigwyddiad.

Adnodd 11 – Nodyn Dyddiadur enghreifftiol

Cam 7 – Monitro'r Sylw yn y Cyfryngau

Ar ôl i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw ddechrau cysylltu â'r swyddfeydd yn y cyfryngau y maen nhw wedi'u dewis, mae'n bwysig eu bod yn cadw golwg am unrhyw sylw. Un ffordd i wneud hyn yw trefnu ffeil toriadau cyfryngau neu lyfr lloffion.

Fe allen nhw ychwanegu nodiadau hefyd i'r rhestr o gysylltiadau yn y cyfryngau a gafodd ei chreu yn ystod Gweithgaredd 1 drwy ddefnyddio Adnodd 3.

Tynnu Sylw'r Llygad

Wrth inni edrych drwy bapur newydd neu gylchgrawn, mae'n llygaid yn aml yn cael eu tynnu at ffotograff, cartŵn neu ddelwedd yn gyntaf, wedyn at y pennawd neu'r capsiwn ac yn olaf fe allen ni ddarllen y stori. Mae hyn yn golygu y bydd defnyddio ffotograff, graffeg neu ddelwedd yn aml yn eich helpu i gael eich stori yn y wasg a sicrhau sylw iddi.

Sesiwn Tynnu Llun

Mae cynnwys ffotograff yn helpu i roi bywyd mewn stori, ac yn aml bydd cynnig cyfle da am lun yn helpu i gael stori i mewn i'r papur newydd neu ar y teledu.

Os yw'r gohebydd am anfon ffotograffydd neu griw ffilmio i ddigwyddiad neu i roi sylw i stori, mae'n rhaid i chithau fod ar gael pan fyddan nhw eisiau dod.

Mae'r ffotograffwyr neu'r criw ffilmio yn gwybod am beth mae'r gohebydd yn chwilio a beth mae'r darllenwyr neu eu gwylwyr yn hoffi ei weld, felly byddwch yn hyblyg o ran sut maen nhw eisiau tynnu'r llun neu ffilmio.

Tynnu'ch Lluniau'ch Hun

Os na all y gohebydd anfon ffotograffydd neu griw ffilmio i ddigwyddiad, efallai mai tynnu'ch lluniau digidol eich hun, a'r rheiny o ansawdd dda, fydd y dewis gorau wedyn.

Bydd y cynghorion isod yn eich helpu i ddewis y llun mwyaf deniadol.

- Edrychwch ar y papurau newydd a'r cylchgronau rydych chi'n eu targedu i weld pa fath o luniau y maen nhw'n eu hargraffu.
- Rhaid i unrhyw luniau y byddwch yn eu hanfon fod o safon dda. Holwch a ydyn nhw'n derbyn delweddau digidol drwy'r e-bost.
- Meddyliwch am eich stori a chymerwch bwyll wrth osod y llun.
- Llenwch y ffrâm ag wynebau neu weithgarwch.
- Gwnewch yn siŵr bod y llun yn glir – dim polion lamp yn tyfu o bennau pobl!
- Meddyliwch am gapsiwn.

- Nodwch enwau pobl (enwau cyntaf yn unig) o'r chwith i'r dde gan roi'ch manylion cysylltu ar gefn y ffoto. Wrth anfon drwy'r e-bost, anfonwch y manylion gyda'r llun digidol.
- Anfonwch yr hysbysiad newyddion eto gyda'r llun - peidiwch â rhagdybio y bydd yn cael ei gyplysu â'r stori.
- Peidiwch â disgwyl cael y llun yn ôl, a pheidiwch hyd yn oed â disgwyl iddo gael ei ddefnyddio.

Rheolau ynghylch Defnyddio Delweddau Ffotograffig

Ond mae'n bwysig dilyn set o reolau llym. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau diogelwch y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw a diogelwch y rhai sy'n rhan o unrhyw sylw yn y wasg.

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd y bobl yn y llun cyn ichi ryddhau ffotograff.
- Yn achos unrhyw bobl o dan 18 oed, bydd arnoch angen caniatâd ysgrifenedig eu rhiant neu eu gwarcheidwad. Peidiwch byth â rhoi delwedd o rywun sydd heb roi ei ganiatâd.
- Cadwch ffurflenni caniatâd sydd wedi'u llofnodi yn ddiogel bob amser.

Rhaid defnyddio Ffurflen Caniatâd Ffotograffig fel yr un yn Adnodd 12.

Gweithgaredd 7 – Dewis y Ffotograffau

Mae ansawdd unrhyw ffotograff yn hollbwysig i gynyddu ei obaith o gael ei ddefnyddio. Rydyn ni i gyd wedi arfer â gweld ffotograffau neu fideo da a drwg. Bydd angen i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw ddod i arfer â dewis y ffotograffau gorau i ddarlunio unrhyw stori.

Casglwch gynifer o fathau o bapurau newydd a chylchgronau ag y gallwch a rhowch ddetholiad i bawb neu i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw ddewis tri ffotograff sydd yn eu barn nhw yn dda a thri sy'n wael, a disgrifio beth yn eu barn nhw yw'r pwyntiau ym mhob un sy'n ddeniadol neu beidio.

Gofynnwch i'r grŵp lunio'u rhestr eu hunain o bethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud.

Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw ddewis un ffotograff o Adnodd 13 – ffotograffau enghreifftiol ac ysgrifennu capsiwn diddorol iddo.

Lleisio Barn – Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Beth yw ystyr Cyfryngau Cymdeithasol?

Roedden ni'n arfer meddwl am 'Y Cyfryngau' fel papurau newydd, radio a theledu yn unig. Daeth tro ar fyd. Erbyn hyn mae gennyn ni gynifer yn fwy o ffyrdd i'w dweud hi fel y mae drwy ddefnyddio'r nifer fawr o fathau o Gyfryngau Cymdeithasol.

Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn ddulliau cyfathrebu â'ch gilydd drwy ddefnyddio amryw o raglenni ar y rhyngrwyd. Mae'r mathau poblogaidd o Gyfryngau Cymdeithasol yn cynnwys:

- Facebook
- Bebo
- MySpace
- Twitter
- Flickr
- creu blog
- gwneud podlediad a'i lwytho i fyny
- gosod fideo ar YouTube.

Mae Cyfryngau Cymdeithasol wedi cael effaith ddramatig ar sut mae pobl yn canfod, yn darllen ac yn rhannu newyddion a gwybodaeth. Mae pobl ifanc yn arbennig o fedrus wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol i gyfathrebu â'u cyfoedion, ond ydyn nhw'n meddwl am ddefnyddio'r un opsiynau i ddylanwadu ar benderfynwyr a hybu eu storïau newyddion da?

P'un a ydyn nhw'n defnyddio mathau traddodiadol o gyfryngau neu'r Cyfryngau Cymdeithasol, mae cryfder y stori yr un mor bwysig – gweler yr adran yn y canllaw ar y cyfryngau 'Yn Gyntaf i Gyd – Dechreuwch gyda'r Stori' ac yn enwedig yr adran ar ysgrifennu ar gyfer y we.

Pam defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol?

Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd gost-effeithiol iawn i grwpiau o bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw roi'r gair ar led am eu newyddion, eu gweithgareddau, eu cyraeddiadau a'u digwyddiadau. Drwy ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, gall grwpiau o bobl ifanc sicrhau proffil yn gyflym ymhlith y gynulleidfa darged.

Yn syml…

- maen nhw'n syml, yn gyflym ac yn rhad ac am ddim i'w defnyddio
- maen nhw'n ffordd wych i gyfleu negeseuon allweddol i fwy o bobl
- maen nhw'n galluogi pobl ifanc i holi barn dilynwyr am faterion sy'n effeithio arnyn nhw neu'n peri pryder iddyn nhw.

Mae ganddyn nhw'r fantais ychwanegol o'i gwneud yn hawdd iawn mynegi storïau newyddion mewn ffordd weledol, leisiol a dynamig gan annog pobl ifanc i feithrin eu sgiliau creadigol.

Mae CLIC, y wefan newyddion, gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru, www.cliconline.co.uk yn amlygu gallu pobl ifanc i gyfathrebu'n greadigol.

Canolbwynt CLIC yw gwefannau rhyngweithiol lleol fel y Sprout a Wicid sy'n caniatáu i bobl ifanc a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw lwytho erthyglau, lluniau, fideos a themâu i fyny, gan roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Mae rhai o'r prif wasanaethau rhwydweithio cymdeithasol fel BeBo, Facebook a MySpace hyd yn oed yn cynnig lle penodol i elusennau a chyrff gwirfoddol a chymunedol hybu achosion da.

Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiogel

Mae defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd wych i ennyn diddordeb y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw i hybu eu newyddion, eu safbwyntiau, eu gweithgareddau a'u cyraeddiadau ac yn arbennig i ddylanwadu ar benderfynwyr a hybu eu storïau newyddion da. Ond wrth i gyfleoedd i rwydweithio ar-lein gynyddu, mae angen i bobl ifanc wybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg symudol yn ddiogel ac yn gyfrifol. Yn benodol, mae angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- risgiau posibl yr amgylchedd ar-lein
- beth i'w wneud a ble i fynd os na fyddan nhw'n teimlo'n ddiogel

Cyn dechrau defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol gyda grwpiau o bobl ifanc, mae'n bwysig:

- bwrw golwg ar weithdrefnau'ch sefydliad ynghylch diogelu ac amddiffyn plant
- cydymffurfio'n llawn â pholisi'ch sefydliad ar e-ddiogelwch a'i bolisi ar ddefnydd derbyniol
- bod yn gyfarwydd ag unrhyw gyfyngiadau oed sy'n gymwys. Er enghraifft, mae gan Bebo a Facebook isafswm oed o 13 ac mae gan MySpace isafswm oed o 14

Mae CLIC wedi rhoi ystyriaeth sylweddol i ddiogelwch y bobl ifanc sy'n defnyddio'r wefan - mae'n werth cael golwg ar eu cynghorion nhw ynghylch diogelwch ar-lein. http://www.cliconline.co.uk/en/on-the-web/safety-information/

Mae angen gofal penodol wrth ystyried defnyddio ffotograffau neu fideo o blant neu bobl ifanc ar wefannau Cyfryngau Cymdeithasol. Fe allai ffotograffau a ffilmiau fideo o blant a phobl ifanc ar wefannau gael eu defnyddio i'w hadnabod nhw, a fyddai'n golygu eu bod yn agored i niwed. I helpu i atal y risg, cyngor yr NSPCC yw y dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddatblygu polisi ynglŷn â defnyddio delweddau sy'n cynnwys gweithdrefn i roi gwybod am ddelweddau amhriodol. www.nspcc.co.uk

I grynhoi

- cyn defnyddio ffotograffau ar wefannau, rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig y person ifanc a'r rhiant neu'r gwarcheidwad, os ydyn nhw o dan 18 oed.
- cofiwch ddefnyddio ffurflen ganiatâd ar gyfer ffotograffau bob amser, gan eu cadw mewn lle diogel ar ôl iddyn nhw gael eu llenwi.
- peidiwch â defnyddio enw'r plentyn neu'r person ifanc os bydd delwedd yn cael ei ddefnyddio.

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Byddwch yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer seibr-fwlio

Gellir disgrifio seibr-fwlio fel defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), yn enwedig ffonau symudol a'r rhyngrwyd, i beri loes yn fwriadol i rywun arall. www.thinkuknow.co.uk

Rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad amheus

Mae'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) yn cynnig gwasanaeth aml-asiantaeth sy'n ymroi i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant. Maen nhw'n darparu gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni a phob gweithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda phobl ifanc drwy eu gwefan unigryw ynghylch diogelwch ar y rhyngrwyd ThinkuKnow. www.thinkuknow.co.uk

Dylech roi gwybod am ymddygiad amheus tuag at blant a phobl ifanc mewn amgylchedd ar-lein i'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein yn www.ceop.police.uk.

Cynllunio strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol

Ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i amddiffyn plant a'r goblygiadau ynglŷn â diogelwch ar-lein, y cam nesaf yw gweithio gyda'r bobl ifanc i ddatblygu strategaeth i ddefnyddio gymaint â phosibl ar Gyfryngau Cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'w newyddion, eu safbwyntiau a'u materion ynghyd â hybu eu cyraeddiadau a'u digwyddiadau.

Mae angen iddyn nhw bwyso a mesur pa fathau o Gyfryngau Cymdeithasol y maen nhw am eu defnyddio a sut i gymhathu hynny yn eu cynlluniau i ddefnyddio'r cyfryngau mwy traddodiadol.

Mae angen hefyd iddyn nhw feddwl am yr hyn y maen nhw am ei gyflawni: ydyn nhw eisiau

- cysylltu â defnyddwyr eraill mewn grwpiau o'u cyfoedion eu hunain
- cyhoeddi gwybodaeth
- dylanwadu ar benderfynwyr allweddol

Gweithgaredd SM 1 – Dewis Cyfryngau Cymdeithasol

Mae un peth yn sicr: mae'n debyg y bydd y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn gwybod llawer mwy am wneud y gorau o gyfleoedd yn y Cyfryngau Cymdeithasol na'r rhan fwyaf o oedolion.

Gan ddefnyddio Adnodd 14, Rhestr Gyfeirio Dewis Cyfryngau Cymdeithasol (SM1), gofynnwch i'r grŵp drafod pob tasg, ystyried a yw'n gymwys iddyn nhw ac yna penderfynu ar yr opsiwn Cyfryngau Cymdeithasol gorau i'w ddewis yn eu barn nhw.

Gweithgaredd SM 2 – Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol i Ddylanwadu ar Benderfynwyr

Ystyriwch y portread isod a dechreuwch y drafodaeth gyda'ch grŵp chi ynghylch sut mae'r hyrwyddwyr newid hinsawdd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol er eu lles nhw eu hunain. Cliciwch ar y ddolen isod i weld sut maen nhw wedi datblygu eu tudalennau gwe ac wedi cysylltu â Facebook, Twitter etc.

Sut i Fynd Ati - Portread Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd Cymru

Yn ddiweddar mae chwech o bobl ifanc yn eu harddegau wedi'u henwi'n llysgenhadon ifanc i Gymru ar newid yn yr hinsawdd.

Bydd y chwe hyrwyddwr yn treulio blwyddyn yn eu swyddi, gan roi'r gair ar led am sut y gall pobl gymryd camau syml ond effeithiol i leihau eu hôl troed carbon, ac yn defnyddio'u dylanwad i berswadio'u ffrindiau, eu teuluoedd a'u cymunedau i chwarae eu rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Bydd yr hyrwyddwyr yn cynrychioli llais pobl ifanc yng Nghymru ar newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag arwain prosiect yn eu hardal leol i wneud gwir wahaniaeth i ôl troed carbon Cymru.

Er enghraifft, mae Jenni Derrick, 15 oed, am annog ysgolion cynradd Cymru i helpu eu disgyblion a'u teuluoedd i dyfu eu llysiau eu hunain, gan helpu i leihau eu milltiroedd bwyd a'u hôl troed carbon. Mae gan bob hyrwyddwr ei dudalen gwe ei hun ar wefan www.climatechangechampion.co.uk, lle maen nhw'n rhoi'r newyddion diweddaraf am gynnydd eu prosiectau.

Er enghraifft, mae Sebastian Giraud o Wynedd wedi postio:

"Sebastian Giraud yw f'enw i a dwi'n un o Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd Cymru. Yn y rôl yma, dwi'n bwriadu mynd ati drwy'r flwyddyn i roi'r gair ar led am newid yn yr hinsawdd, a trio dylanwadu ar bobl i wneud pethau bach i helpu'r amgylchedd. Mi fydda i'n gweithio ochr yn ochr â phum Hyrwyddwr Newid Hinsawdd arall, i wneud gwahaniaeth go iawn gobeithio. Fe ges i fy mhenodi ym mis Ionawr, ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad gynnal cystadleuaeth i ddod o hyd i chwech o bobl ifanc digon angerddol am yr amgylchedd ac am ddyfodol y blaned i ledaenu'r neges am y camau bach mae pawb yn gallu eu cymryd i daclo newid yn yr hinsawdd."

Mae'r hyrwyddwyr newid hinsawdd yn bresennol hefyd ar amryw o Gyfryngau Cymdeithasol gan gynnwys Twitter, Facebook, Vimeo, Myspace, Flickr a YouTube

Nawr gofynnwch i'ch grŵp benderfynu ar eu rhestr o bethau i'w gwneud er mwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu eu newyddion, eu safbwyntiau, eu gweithgareddau, eu digwyddiadau neu eu cyraeddiadau i benderfynwyr allweddol.

Cyfryngau cymdeithasol – Ffeil Ffeithiau

1. Ffeithiau Facebook

Ar hyn o bryd, Facebook yw'r fwyaf poblogaidd o blith y gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ac mae dros 500 miliwn o ddefnyddwyr (Gorffennaf 2010).

Gallai'ch grŵp greu proffil Facebook i ledu'r gair am eu gweithgareddau, eu digwyddiadau neu eu cyraeddiadau.

Beth am annog y grŵp rydych chi'n gweithio gyda nhw i greu rhestr o gysylltiadau yr hoffen nhw eu gwahodd i fod yn 'ffrindiau', yn yr un modd ag y buon nhw'n rhestru'r swyddfeydd yn y cyfryngau traddodiadol yn ystod Cam 1 o'r Canllaw ar y Cyfryngau.

Gallan nhw ychwanegu'r holl bobl yr hoffen nhw ddweud wrthyn nhw am eu gweithgareddau, eu digwyddiadau neu eu cyraeddiadau fel 'ffrindiau'. Yna gallan nhw roi'r newyddion diweddaraf iddyn nhw am eu cynnydd neu am ddigwyddiad drwy anfon negeseuon a thrwy ddiweddaru proffil y grŵp yn rheolaidd. Mae'n bosibl y byddan nhw hyd yn oed yn awyddus i sefydlu a rheoli rhwydwaith i'w grŵp.

Gweithgaredd SM 3 – Cael gwybodaeth am Facebook

I gael syniadau am sut i fanteisio ar Facebook i'w dweud hi fel y mae, edrychwch ar y grŵp Facebook sydd wedi'i greu gan Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd Cymru o'r enw 'Ein Dyfodol, Ein Llais / Our Future, Our Voice'.

Drwy sefydlu grŵp yma maen nhw'n gobeithio annog pobl ifanc yng Nghymru i wneud y canlynol:

- sôn wrth yr Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd am eu barn nhw am newid yn yr hinsawdd
- trafod materion newid yn yr hinsawdd a rhannu gwybodaeth am brosiectau perthnasol ledled Cymru
- rhoi eu barn ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Maen nhw'n bwriadu cyflwyno barn y grŵp Facebook ar ran holl bobl ifanc Cymru bob tro y byddan nhw'n mynd i gyfarfodydd ynghylch newid yn yr hinsawdd.

Ewch i weld tudalen Facebook yr Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd yn:

http://www.facebook.com/group.php?gid=333386876379&v=wall

1. Gofynnwch i'ch grŵp nodi beth yn eu barn nhw yw'r pwyntiau da neu'r diffygion ynglŷn â'r hyn y mae'r Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd wedi'i wneud.
2. Wedyn gofynnwch i'ch grŵp feddwl sut y gallen nhw sefydlu grŵp Facebook i hybu eu gweithgareddau, eu digwyddiadau a'u cyraeddiadau nhw.

2. Helo Bebo

Mae Bebo yn debyg i Facebook. Mae'n fwy cyfyngedig i'w ddefnyddio i fynegi negeseuon am weithgareddau, cyraeddiadau neu ddigwyddiadau grŵp ond mae yna adran i sylwadau lle caiff 'ffrindiau' y defnyddiwr adael negeseuon.

3. Defnyddio YouTube

YouTube yw'r un fwyaf adnabyddus o blith y gwefannau rhannu fideo. Dewis arall yw Vimeo. Gall y defnyddwyr cofrestredig lwytho'u creadigaethau eu hunain i fyny i'w rhannu a gweld gwaith pobl eraill. Gall defnyddwyr sydd heb gofrestru weld yr arlwy ond dim mwy. Mae YouTube yn lle da i roi hwb gweledol i'ch gweithgareddau, eich cyraeddiadau neu'ch digwyddiadau.

4. Trydar ar Twitter

Opsiwn ar gyfer negeseuon 'testun' ar y we yw Twitter ac mae'n helpu pobl i roi'r gair ar led, weithiau i filiynau o 'ddilynwyr'. Erbyn hyn mae ganddo 100 miliwn o ddefnyddwyr ledled y byd. Mae'r negeseuon fel negeseuon testun, ond yn defnyddio 140 o gymeriadau yn unig; maen nhw'n cael eu dangos ar broffil y defnyddiwr.

Mae yna lawer o enwogion yn trydar, gan gynnwys Stephen Fry sydd â mwy na miliwn o ddilynwyr, Britney Spears, Russell Brand, Neil Gaiman, a Soulja Boy.

Bydd gwleidyddion fel David Cameron a Barack Obama yn trydar hefyd, er mai eu staff nhw sy'n anfon y negeseuon fel arfer. Mae gan Brif Weinidog Cymru gyfrif Twitter hefyd www.twitter.com/SMWales

Gweithgaredd SM 4 – Taclo Twitter

Mae ein Comisiynydd Plant ni'n hunain yng Nghymru, Keith Towler, yn trydar hefyd. Fel enghraifft o sut i gael Twitter i weithio dros y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, edrychwch ar www.twitter.com/childcomwales

Gofynnwch iddyn nhw nodi sut y gallai proffil Twitter eu helpu i roi'r gair ar led am eu gweithgareddau, eu cyraeddiadau neu eu digwyddiadau.

Pwy fydden nhw'n hoffi eu gweld yn darllen eu negeseuon?

4. Hanfodion Blogio

Dyddiadur ar-lein yw'r blog mwyaf sylfaenol. Mae blogio'n ffordd dda i gysylltu pobl sydd ag achos yn gyffredin. Gall cymunedau dyfu pan fydd pobl yn ymuno â'ch trafodaethau.

Fel rheol gyffredinol, does dim rhaid i flogwyr fod yn ysgrifenwyr creadigol ond mae'n rhaid bod ganddyn nhw rywbeth i'w ddweud.

Cynghorion

- Os hoffai'ch grŵp greu blog bydd angen iddyn nhw sicrhau naill ai bod un o'r grŵp yn cymryd meddiant arno neu eu bod yn mynd ati bawb yn ei dro i bostio neu i ddiweddaru'r blog yn gyson.
- Meddyliwch am enw i'r blog – mae angen iddo ddweud beth yw diben y grŵp a rhoi cip ar y cynnwys, er enghraifft dweudhifelymae.blogspot.com
- Bydd unrhyw un yn gallu gweld y wefan ond dim ond aelodau'r grŵp fydd yn cael golygu unrhyw ddeunydd.
- Ceisiwch sicrhau ei fod yn hawdd ei ddarllen – testun du ar gefndir gwyn sy'n ddelfrydol.
- Meddyliwch am benawdau da – bydd y rhain i'w gweld wrth i bobl chwilio'r rhyngrwyd ynghyd â'r llinell neu ddwy gyntaf.
- Defnyddiwch ffotograffau a delweddau, ond dilynwch y rheolau ar dudalennau 20 i 23.
- Ceisiwch bostio diweddariad ryw dair gwaith yr wythnos.

Gweithgaredd SM 5 – Adeiladu'ch Blog

Gofynnwch i'ch grŵp fewngofnodi i wefan blogio di-dâl fel www.blogger.com neu www.wordpress.com er mwyn:

- Cofrestru • Adeiladu proffil • Dewis templed

Gweithgaredd Ymestyn

Wedyn gofynnwch i'ch grŵp roi cynnig ar adeiladu blog i'r grŵp.

5. Flickr

Gwefan storio delweddau yw Flickr ac mae'n cael ei defnyddio yn aml gan flogwyr i gadw'r delweddau y byddan nhw'n eu hymgorffori yn eu blog wedyn

6. Podledu

Ffeil cyfrwng digidol yw podlediad, sy'n defnyddio fformat sain neu fideo. Mae podlediad yn aml yn cael ei baratoi a'i lwytho i fyny ar flog neu wefan fel www.walesonline.co.uk. Wedyn gall gael ei lawrlwytho gan unrhyw un i'w gyfrifiadur neu ei ddyfais symudol i wrando arno neu i'w wylio yn nes ymlaen.

Fel arfer, bydd podlediadau'n cael eu cynhyrchu'n rheolaidd ac maen nhw'n cynnig cyfle i gynhyrchu a dosbarthu diweddariadau cyson am eich gweithgareddau, eich cyraeddiadau neu'ch digwyddiadau.

Gofynnwch i'ch grŵp o bobl ifanc edrych ar saith rheol podledu.

1. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi rywbeth i'w ddweud neu neges i'w rhoi.
2. Byddwch yn barod. Gwnewch nodiadau manwl cyn dechrau siarad; ac, os ydych yn cynnal cyfweliad â rhywun, paratowch y cwestiynau ymlaen llaw.
3. Byddwch yn gryno ac yn syml, a rhowch gynnig ar bodlediadau byr o'r enw byrlediadau ambell waith (20 i 30 munud).
4. Byddwch yn glir – defnyddiwch offer recordio da, yn enwedig y meicroffon. Os yw'n swnio fel pe bai'r podlediad wedi'i recordio yn y stafell ymolchi, fydd y gwrandawyr ddim yn aros.
5. Byddwch yn naturiol – siaradwch am y pethau sydd o ddiddordeb i chi, eich hobi neu weithgaredd rydych chi wedi cymryd rhan ynddo.
6. Byddwch yn wahanol – y podlediadau gorau yw'r rhai sy'n wreiddiol neu'n newydd.

7. Peidiwch ag ychwanegu cerddoriaeth i lenwi amser, ac wrth ddefnyddio cerddoriaeth fasnachol, cofiwch fod yna oblygiadau o ran hawlfraint.

Dim ond y podlediadau gorau sy'n para – gwnewch eich gorau glas i sicrhau bod pobl yn dod yn ôl i gael rhagor. *(Mae'r rheolau hyn wedi'u haddasu ar sail 'Kirk's Rules for Effective Podcasting' gan Kirk McElham)*

Gweithgaredd SM 6 – Cymysgu'r Cyfrwng

Os yw'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn bwriadu defnyddio un o'r syniadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn y pecyn hwn, bydd angen iddyn nhw ddweud wrth bobl am eu cynlluniau a'u hannog nhw i ddod i'r wefan.

A pha ffordd well na Hysbysiad Newyddion.

I gael templed Hysbysiad Newyddion enghreifftiol i hybu eu podlediad neu unrhyw fath arall o Gyfryngau Cymdeithasol – chwiliwch yn y Ffolder Adnoddau am Adnodd 10.